



Achieve
together



Ein Siarter teulu



Sganiwch i wyllo mewn BSL



Mae'r siarter hon, a luniwyd mewn cydweithrediad â theuluoedd, yn nodi ymrwymiad Achieve together i deuluoedd. Mae'n egluro sut rydym yn gweithio gyda'r bobl rydym yn eu cefnogi a'u teuluoedd, o'r cyswllt cyntaf hyd at fywyd sefydlog yn eu cartref a'u cymuned newydd.

Dysgu am eich aelod o'r teulu

Rydym am ddeall a dysgu cymaint ag y gallwn am yr unigolyn. Byddwn yn casglu gwybodaeth am:

- **Y bobl allweddol yn eu bywyd:** Teulu agos ac estynedig, ffrindiau, cydnabod a gweithwyr proffesiynol.
- **Anifeiliaid anwes:** Unrhyw anifeiliaid sydd wedi bod, neu sy'n bwysig ym mywyd yr unigolyn.
- **Crynodeb o'u bywyd hyd yma, er enghraifft:** Hanes byr o'u bywyd, digwyddiadau pwysig, hunaniaeth ysbrydol a diwylliannol, diddordebau, hobiau hoff, bwyd a diod, pethau nad ydynt yn eu hoffi, pethau a all beri gofid, ac anghenion cymorth a thriniaeth.
- **Dyheadau:** Byddwn yn ceisio deall uchelgeisiau a breuddwydion yr unigolyn.

Cyn symud i mewn

Byddwn yn cefnogi teuluoedd i:

- **Ddeall** y gwahaniaeth rhwng modelau cefnogaeth llety preswyl cofrestredig a byw â chymorth.
- **Ddeall** pw y sy'n talu am beth unwaith y bydd eich perthynas yn cael cefnogaeth gan **Achieve together**.
- **Edrych ymlaen** – bydd rheolwr y cartref neu'r gwasanaeth byw â chymorth, yr unigolyn sy'n cael cefnogaeth, y teulu a'r awdurdod sy'n darparu'r cyllid yn cytuno ar gynlluniau cymorth a chanlyniadau mesuradwy ar y cyd.
- **Datblygu cynllun "symud i mewn"** – sut y byddwn yn helpu eich perthynas i symud i'w gartref newydd.

Symud i mewn

- Bydd teuluoedd yn cael eu cyflwyno i'r rheolwr a'r tîm cymorth, ac yn cael gwybodaeth am y ffordd rydym yn gweithio, beth i'w ddisgwyl, y sianeli cyfathrebu, a sut y gallant roi adborth, codi pryderon, gwneud cwynion, rhoi canmolïaeth neu rannu syniadau.
- Bydd pob unigolyn rydym yn ei gefnogi yn cael gweithiwr allweddol. Bydd y gweithiwr allweddol yn datblygu dealltwriaeth fanwl o'ch perthynas ac yn ei helpu i wneud y gorau o'i fywyd gartref ac yn y gymuned.

Gwerthoedd Craidd Achieve together



Bod yn
ddewr



Cael
hwyl



Gwneud
i bethau
ddigwydd



Gwerthfawrogi
pawb

Pobl yn byw bywydau bodlon

- **Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:** mae anghenion a diddordebau'r bobl rydym yn eu cefnogi wrth galon ein proses gynllunio, ac rydym yn croesawu eich cyfraniad. Gall teuluoedd weld a chyfrannu at ddogfennau cynllunio cymorth, gyda chaniatâd eu perthynas.
- Bydd y gweithiwr allweddol a'r rheolwr, ynghyd â'ch perthynas, yn cytuno ar gynlluniau ar gyfer gweithgareddau ystyrlon gyda'r nod o wneud y mwyaf o gyfleoedd bywyd a chyfranogiad yn y gymuned leol.
- **Cynnwys y teulu:** bydd rheolwyr yn sefydlu sut mae teuluoedd yn dymuno bod yn rhan o fywyd eu perthynas, gyda chaniatâd yr unigolyn. Byddwn yn egluro pa mor aml a pha fath o gyswllt sy'n cael ei ffafrio, cyfathrebu, a threulio amser gyda'n gilydd wyneb yn wyneb neu'n rhithiol.
- **Hybu iechyd, atal a chynllunio:** bydd Achieve together yn cytuno ar gynlluniau gyda'ch perthynas i sicrhau'r cymorth iechyd gorau posibl, gan ddefnyddio gwasanaethau iechyd lleol i ganolbwyntio ar archwiliadau iechyd personol, cynlluniau iechyd, sgrinio ac atal.

Cyfathrebu Achieve together

- Yn dibynnu ar strwythur y tîm, bydd y rheolwr, y dirprwy reolwr/arweinwyr ymarfer neu'r gweithiwr allweddol yn bwynt cyswllt i deuluoedd.
- Bydd y rheolwr yn gofyn i deuluoedd pa wybodaeth reolaidd yr hoffent ei chael am eu perthynas, a byddant yn cael eu gwahodd i adolygiadau blynyddol (gyda chaniatâd yr unigolyn) ac i gyfarfodydd Budd Pennaf o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Bydd y rheolwr yn sicrhau bod teuluoedd yn cael gwybod yn brydlon am unrhyw bryderon, digwyddiadau neu ddamweiniau sydd wedi effeithio ar eu perthynas.
- Gall teuluoedd ddewis derbyn cylchlythyr Achieve together a diweddariadau pwysig eraill drwy optio i mewn i dderbyn diweddariadau rheolaidd.
- Bydd y rheolwr yn rhoi gwybod i deuluoedd am unrhyw newidiadau i aelodau'r tîm yng nghartref eu perthynas.
- Mae gwefan Achieve together yn dangos strwythur y cwmni a'i uwch dîm rheoli.
- Mae Achieve together yn cynnal gweminarau rheolaidd i aelodau o'r teulu ddod ynghyd a thrafod ystod eang o bynciau.
- Mae Achieve together yn cefnogi Grŵp Ansawdd ac Ymgynghori Teuluoedd, sy'n gweithredu fel grŵp cynrychiolwyr teuluoedd i roi adborth ar faterion ansawdd, cynllunio gweminarau rheolaidd a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwella'r cymorth rydym yn ei ddarparu. Gall aelodau'r teulu ofyn i ymuno â'r grŵp hwn.



Ymrwymiadau Achieve together

- Darparu cymorth o ansawdd uchel fel y cytunwyd gyda'r unigolyn sy'n cael cefnogaeth, ei deulu a'r awdurdod sy'n darparu'r cyllid.
- Bydd pobl bob amser yn cael eu cefnogi gyda pharch, caredigrwydd a thosturi.
- Bydd cymorth bob amser yn rhoi diogelwch personol yn gyntaf. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau diogelu o ddifrif, ac mae gan bawb sy'n gweithio i Achieve together gyfrifoldeb ar y cyd i ddiogelu pobl rhag ymarfer gwael, niwed, camfanteisio neu esgeulustod.
- Bydd y cymorth yn dilyn egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Byddwn bob amser yn dryloyw ac yn onest, gan gydnabod ac ymddiheuro os byddwn yn gwneud camgymeriadau, ac yn egluro sut y byddwn yn dysgu ohonynt.
- Byddwn yn agored i adborth gan bob parti perthnasol.
- Os bydd problem yn codi, dylai teuluoedd ei chodi gyda'r rheolwr yn gyntaf. Os nad yw hynny'n briodol, dylid cysylltu â Phennaeth yr Ardal neu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.
- Dylai teuluoedd deimlo'n rhydd i roi sylwadau drwy'r dudalen "Cysylltu â Ni" ar wefan Achieve together.
- **Adolygu'n barhaus** – mae tîm ansawdd Achieve together yn cynnal rhaglen barhaus o archwiliadau mewnol, yn ychwanegol at arolygiadau allanol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC).

Cynnwys teuluoedd ar lefel y sefydliad

- Mae cyfleoedd i aelodau o'r teulu gymryd rhan yn fwy gweithredol gydag Achieve together ar sail wirfoddol, er enghraifft drwy gyfrannu at ddogfennau fel y Siarter Teulu hon, cymryd rhan mewn Gwiriadau Ansawdd Teuluol, beirniadu gwobrau Aelod Tîm/Rheolwr y Mis, rhoi sylwadau ar bolisiau, a chefnogi'r gwaith o gynllunio a mynychu digwyddiadau.
- Nod Achieve together yw rhoi teuluoedd mewn cysylltiad â'i gilydd drwy ddigwyddiadau teuluol mewn cartrefi unigol a thrwy weminarau i deuluoedd.



achievetogether.co.uk
01372 364000
info@achievetogether.co.uk

